


YR AMGYLCHEDD PRESENNOL A HANESYDDOL



Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dau fesur gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru gydag enwau digon tebyg.

Y cyntaf yw [Bil yr Amgylchedd Hanesyddol \(Cymru\)](#). Mae'r Bil hwn yn diwygio deddfwriaeth gyfredol sy'n llywodraethu'r gwaith o reoli henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig yng Nghymru, yn rhoi'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol presennol ar sail statudol ac yn creu Panel Cyngori newydd ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru.

O ran henebion, gobeithir diogelu'r safleoedd bregus hyn yn well.

O ran adeiladau rhestredig – llawer ohonynt yn adeiladau crefyddol – fe fwriedir:

- gwarchod adeilad wrth i Weinidogion Cymru benderfynu ynglŷn â'i restru;
- sefydlu proses adolygu ar gyfer penderfyniadau Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r rhestr o adeiladau;
- galluogi perchennog neu ddatblygwr i wneud cais i Weinidogion Cymru am dystysgrif imiwnedd rhag rhestru, yn atal rhestru adeilad am 5 mlynedd;
- sefydlu "cytundebau partneriaeth dreftadaeth", lle gall Gweinidogion Cymru neu awdurdodau cynllunio lleol gytuno ymlaen llaw ar gyfres o newidiadau i adeilad rhestredig gyda'r perchennog, gan leihau'r angen am geisiadau caniatâd unigol; a
- rhoi rhagor o bwerau i Weinidogion Cymru i atal gwaith anawdurdodedig ar adeilad rhestredig a gwneud gwaith atgyweirio brys i gadw adeilad rhestredig.

Y cam nesaf ar daith y Bil yw gwaith ymgynghori a chraffu gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. Mae Cytûn wedi cynnull cyfarfod o Swyddogion Eiddo a swyddogion cyfatebol yr enwadau Cristnogol i drafod y Bil ar **fore Gwener 29ain Mai**. Os ydych am ei fynychu, yna cysyllter â'r Parch. Gethin Rhys (gethin@cytun.org.uk). Neu fe allwch ymateb yn uniongyrchol i'r Pwyllgor drwy'r wefan [yma](#), erbyn 19eg Mehefin.

Mae [Bil yr Amgylchedd \(Cymru\)](#) yn cwmpasu o leiaf wyth maes gwahanol. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi mai ei nod ar gyfer y Bil yw rhoi deddfwriaeth ar waith a fydd yn golygu y gellir rheoli adnoddau Cymru mewn ffordd sy'n fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgyssylltiedig a sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Prif gynnwys y Bil yw:

- ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru fabwysiadu **Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol** a bydd yn ei gwneud yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru gyflwyno **datganiadau ardal** sy'n nodi'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol ar lefel ardal. Bydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru gyhoeddi **Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol** a fydd yn nodi tystiolaeth ar gynnydd Cymru tuag at ei nodau o ran rheoli adnoddau naturiol a'r amgylchedd. Bydd hefyd yn cryfhau'r dyletswyddau cyfredol sydd ar awdurdodau cyhoeddus i ystyried **bioamrywiaeth**.

- cyflwyno **targedau statudol i leihau allyriadau a chyllidebu carbon** mewn ymgais i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yng Nghymru.
- rhoi pwerau ehangach i Weinidogion Cymru **godi tâl am fapiau plastig**, nid dim ond bagiau untro.
- rhoi pwerau ehangach i weinidogion ei gwneud yn ofynnol bod mathau gwahanol o wastraff yn cael eu casglu ar wahân a rhwystro llosgi gwastraff y gellid ei ailgylchu.
- newid y drefn gyfreithiol ar gyfer gwarchod pysgod cregyn a ffioedd ar gyfer trwyddedau morol.
- Sefydlu Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

Mae [ymgyngoriad](#) ar y gweill gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chanaliadwyedd.

GWEITHREDU CYFREITHIAU NEWYDD CYMRU

Nid pasio Deddf yw diwedd y daith o bell ffordd. Mae llawer o waith pellach i'w wneud cyn y gellir ei gweithredu yn effeithiol. Mae Llywodraeth Cymru wrthi yn ymgynghori ar fanylion gweithredu tair Deddf a basiwyd yn ddiweddar gan y Cynulliad.

Mae'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)

yn gosod dyletswyddau ar Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a byrddau iechyd i lunio strategaethau i wrthsefyll trais a cham-drin domestig a thrais rhywiol, a phenodir Cynghorydd Cenedlaethol i gynorthwyo a monitro'r broses hon. Mae Cymorth i Ferched Cymru yn cynnal ymgynghoriad ar ran y Llywodraeth am y ffyrdd gorau i gyflwyno'r maes hwn i fyd addysg nid fel pwnc, ond fel maes fyddai'n treiddio ar draws ysgolion, colegau a phrifysgolion yng Nghymru. Fe gysylltodd Cytûn i ofyn a oedd yr ymgynghoriad hwn ar gael yn y Gymraeg, ond ni chawsom ymateb. Gellir ymateb yn Saesneg yn <https://www.surveymonkey.com/r/8RDBW2M> erbyn 15fed Mai 2015.

Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\)](#) yn cyflwyno dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i ystyried lles cenedlaethau'r dyfodol wrth wneud eu penderfyniadau. Mae'n sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chynlluniau llesiant lleol (un i bob awdurdod lleol) ac fe benodir Comisiynydd i gynorthwyo a monitro'r gwaith. Mae cyflwyno meddylfryd newydd ar draws y sector cyhoeddus yn dipyn o uchelgais, ac fe fydd y canllawiau statudol yn dylanwadu'n fawr ar ba mor ddifrifol y bydd cyrff cyhoeddus yn ystyried y newid hwn. Mae Cytûn wedi bod ynglŷn â'r broses ymgynghori gychwynol, ac mae yna awydd i weld cyhoeddi'r canllawiau mewn diwyg tipyn mwy apelgar na'r dogfennau arferol llawn paragrffau wedi eu rhifo. Fe fu gan fudiadau Cristnogol megis Cymorth Cristnogol a Taerfund rôl bwysig wrth lunio'r ddeddfwriaeth, a bydd gan fudiadau ffydd waith pwysig hefyd i sicrhau na gollir y weledigaeth fawr wrth weithredu'r Ddeddf.

Datblygwyd ac ymgynghorwyd ar y rheoliadau, y codau ymarfer a'r canllawiau statudol sy'n sylfaen i **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** dros ddau gam. Mae'r [ail gam ymgynghori](#) ar y rhain wedi agor a bydd yn dod i ben ar 31 Gorffennaf. (Cyhoeddir y cynnwys yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd, ond bydd y canllawiau ac ati yn cael eu cyfieithu cyn iddynt gael eu cyflwyno). Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud yn arbennig â'r camau a gymerir i asesu anghenion oedolion, plant a gofalwyr yn y gymuned i weld pa wasanaethau y dylent eu derbyn – cam hanfodol yn y broses o helpu pobl mewn angen. Bydd y Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith yn Ebrill 2016.

Mae Cyngor Gofal Cymru yn datblygu siop un stop lle bydd yr holl adnoddau presennol sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf ar gael i bawb. Os oes gennych wybodaeth rydych wedi'i datblygu ynglŷn â'r Ddeddf o fewn eich mudiad eich hun, neu wedi dod o hyd i unrhyw wybodaeth berthnasol gyhoeddedig o ffynonellau eraill, hoffai Cyngor Gofal Cymru gael gwybod amdani. Anfonwch ebost at Sian Howell, Swyddog Cyfathrebu, Cyngor Gofal Cymru, sian.howell@ccwales.org.uk os oes gennych unrhyw wybodaeth y gellir ei rhannu.



GOFALU A GOFALWYR

Wythnos Gofalwyr [Llun 8 - Sul 14 Mehefin](#) 2015 -

Mae yna ddeddfwriaeth bellach ym maes gofal o flaen y

Cynulliad ar hyn o bryd. Nod [Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal](#)

[Cymdeithasol \(Cymru\)](#) yw gwella gwasanaethau gofal a gosod safonau ansawdd ar eu cyfer. Mae Llywodraeth Cymru am i'r Bil sicrhau bod systemau cadarn ar waith ar gyfer monitro ac arolygu gwasanaethau i benderfynu a ydynt yn ddigon da, ac i gymryd camau ar fyrder os nad ydynt yn cyrraedd y nod.

Y gwasanaethau gofal cymdeithasol sy'n cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd (h.y. cânt eu cofrestru a'u monitro'n ffurfiol) yw'r gwasanaethau preswyl a llety; mabwysiadu a maethu; y gwasanaethau lleoli oedolion a gofal cartref. Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i ychwanegu gwasanaethau neu i beidio â'u cynnwys ar y rhestr drwy reoliadau ac fe fwriedir cynnwys gwasanaethau eirioli dan y drefn hon pan gychwynnir y Bil yn Ebrill 2016.

Y staff gofal cymdeithasol sy'n gorfod cofrestru â'r rheoleiddiwr ar hyn o bryd yw gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr gwasanaethau a reoleiddir (fel cartrefi gofal); gweithwyr cymdeithasol dan hyfforddiant a gweithwyr gofal plant preswyl. Unwaith eto, nid yw'r Bil yn ymestyn y rhestr bresennol ond mae'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau at y diben hwnnw. Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu newid y sefyllfa bresennol ar hyn o bryd – felly ni fydd rheoli ar, er enghraifft, weithwyr cyffredin mewn cartrefi preswyl i oedolion.

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn parhau i ystyried y Bil tan 3ydd Mehefin.

CYMRU'N COFIO 1914-18

Mae eglwysi a chymunedau ffydd eraill wedi ymuno ag amrywiaeth o fudiadau i helpu Llywodraeth Cymru i ddathlu canmlwyddiant hynt a helynt y Rhyfel Byd Cyntaf.



Dyma ddolen i lyfryn [Rhaflen 2015](#). Mae'r llyfryn yn cynnwys manylion y digwyddiadau a gynhelir yng Nghymru i goffáu'r canmlwyddiant, ac unrhyw ddigwyddiadau a gynhelir y tu hwnt i Glawdd Offa os byddant yn berthnasol i Gymru. Mae hefyd yn cynnwys erthyglau gan sefydliadau partner sy'n datblygu digwyddiadau a phrosiectau coffa.

Ewch i wefan [Cymru'n Cofio Wales Remembers 1914-1918](#) (www.cymruncofio.org) a'n cyfryngau cymdeithasol ([Trydar: @cymruncofio](#) a [Gweplyfr: Cymru'n Cofio Wales Remembers 1914-1918](#)) i gael rhagor o wybodaeth. Hoffwn hefyd eich hannog chi i roi gwybod inni drwy wefan [Cymru'n Cofio Wales Remembers 1914-1918](#) os ydych yn trefnu unrhyw ddigwyddiadau neu brosiectau coffa.

LLONGYFARCHIADAU A FFARWÉL

Llongyfarchiadau i ddau Aelod Cynulliad a etholwyd i wasanaethu yn San Steffan yn etholiad Mai 2015 – Byron Davies (Gŵyr) ac Antoinette Sandbach (Eddisbury). Fe gymerir lle y naill a'r llall gan yr aelod nesaf sydd ar gael gan y Ceidadwyr ar eu rhestri rhanbarthol yng Ngorllewin De Cymru a Gogledd Cymru.

CYDRADDOLDEB YNG NGHYMRU

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad am ei hamcanion cydraddoldeb rhwng 2016 a 2020, ac mae Cytûn wedi derbyn grant ariannol bychan gan Lywodraeth Cymru i gynnal Grŵp Ffocws ar y mater ar ran Cyngor Rhyng-ffydd Cymru ar **Ddydd Mawrth 14eg Gorffennaf**. Gan mai Grŵp Ffocws yw hwn nid ydym am i'r niferoedd fynd yn rhy fawr, felly trefnwyd dau gyfnod amser (10 y bore – 12 a 1.30 y prawn – 3.30) yng Ngholeg y Bedyddwyr, Heol Richmond, Caerdydd (gyferbyn â swyddfa Cytûn). Un sesiwn yn unig fydd angen i chi ei mynychu.

Os hoffech ddod, a fydddech cystal ag ymateb ar eich cyfle cyntaf i gethin@cytun.org.uk, ac erbyn **Dydd Gwener 26ain Mehefin fan bellaf** yn dweud: (1) A fyddwch yn gallu dod (2) A fyddwch yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, fel y gallwn drefnu cyfieithydd. (3) A fyddai'n well gennych fynychu yn y bore neu'r prawn, pe byddai dewis.

Gallwch ddarllen mwy am yr ymgynghoriad, a gweld y dogfennau cefndirol, yn:

<http://gov.wales/consultations/people-and-communities/draft-equality-objectives-2016-2020-consultation/?skip=1&lang=cy> Fe ddosberthir canllaw cryno i bawb sy'n trefnu lle.

Llunio'r Dyfodol - Cynhadledd y Gyfnewidfa Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 10 Mehefin 2015, Llandrindod

Bydd y gynhadledd hon yn:

- archwilio ymagweddau newydd at asesu effaith ar gydraddoldeb, hawliau dynol a chyfiawnder cymdeithasol
- ystyried sut y gall asesu effaith esgor ar ddeilliannau cadarnhaol
- cynyddu eich dealltwriaeth o sut y gallai penderfyniadau effeithio ar bobl
- eich helpu i herio gwahaniaethu a chamdriniaethau hawliau dynol
- eich helpu i ddiogelu a hybu cydraddoldeb a hawliau dynol
- canolbwyntio ar sut i wneud y gorau o Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Prif Siaradwyr: Helen Mott, Prifysgol Gorllewin Lloegr a Chymdeithas Fawcett Bryste
Sue Bent, Cyfarwyddwr Canolfan Gyfraith Coventry

Kate Clayton-Hathway, Prifysgol Oxford Brookes

Mae'r gynhadledd yn rhad ac am ddim. Os hoffech neilltuo lle, lawr lwythwch y [ffurflen gofrestru hon](#), a'i hanfon mewn e-bost at Wales@equalityhumanrights.com

Os oes unrhyw gwestiynau cysylltwch ar 02920 447710.

A yw Cymru'n Decach?

8 Gorffennaf 2015 10.00am - 3.30pm

Prifysgol De Cymru, Canolfan Gynadledda, Trefforest

Hoffai'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru eich gwahodd i ddod i gynhadledd i rannu casgliadau cynnar 'A yw Cymru'n Decach?'

'A yw Cymru'n Decach?' yw'r adolygiad dilynol i'n hadolygiad yn 2011, [Pa mor deg yw Cymru?](#), a'i gyfar [Adolygiad Hawliau Dynol 2012](#).

Bydd 'A yw Cymru'n Decach?' yn darparu'r cyfle cyntaf i fesur cynnydd ym maes cydraddoldeb a hawliau dynol dros y pum mlynedd ddiwethaf. Bydd yn archwilio chwe maes; iechyd, diogelwch, diogeledd a'r hawl i fyw, bywyd teuluol a chartref, addysg a dysgu, gwaith ac incwm a chymryd rhan mewn cymdeithas.

Bydd y gynhadledd yn darparu cyfle i chi:

- glywed am heriau cydraddoldeb a hawliau dynol pwysig sy'n wynebu Cymru
- nodi'r camau nesaf wrth daclo'r heriau
- trafod sut y gall yr heriau helpu i nodi amcanion strategol newydd cyrff cyhoeddus

Mae'r gynhadledd yn rhad ac am ddim. I neilltuo eich lle [ar-lein](#) Os oes unrhyw gwestiynau gennych neu hoffech drafod y gynhadledd cysylltwch â ni ar 029 2044 7710.



LOBI NEWID HINSAWDD, SAN STEFFAN, 17eg MEHEFIN

Ar 17eg Mehefin, mae clymblaid o 100 mudiad – yn eu plith CAFOD, Tearfund a Chymorth Cristnogol – yn trefnu diwrnod gweithredu a dathlu er mwyn siarad ag Aelodau Seneddol a dweud wrthynt pam bod ymladd yn erbyn newid yn yr hinsawdd yn bwysig. Ceir peth gwybodaeth gefndirol

yn Gymraeg yn: <http://stopclimatechaoscymru.org/wp-content/uploads/2013/07/Change-is-comingCYM-2.pdf>

Fe fydd yna weithdai, cerddoriaeth, adloniant a rali fawreddog addas i'r teulu cyfan. Dyma fydd y lobi fwyaf ym Mhrydain am newid yn yr hinsawdd, a'r lobi fawr gyntaf i'r llywodraeth newydd. Gallwch drefnu'ch lle yn : <http://fortheloveof.org.uk/speakup/>

WEDI CYRRAEDD PEN EICH TENNYN...

Fe'ch gwahoddir ar ran Stafell Fyw Caerdydd a CAIS i gofrestru ar gyfer 'Pan Mae Lwc yn Rhedeg Allan', cynhadledd genedlaethol cyntaf yng Nghymru ar gamblo gormodol. Cynhelir y gynhadledd hanner diwrnod, sydd yn rhad ac am ddim i fynyachu, yn Adeilad y Pierhead, Bae Caerdydd ar fore dydd **Mercher 24 Mehefin 2015**.

Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, bydd darlith flynyddol Ystafell Fyw Caerdydd yn cael ei gynnal yn yr un lleoliad o 5.30pm ymlaen.

Eleni bydd dau siaradwr gwadd: Tim Leighton, Cyfarwyddwr Addysg Proffesiynol ac Ymchwil yng Nghanolfan Astudiaethau Trin Adfer, Action on Addiction, Warminster a fydd yn siarad am *Emosiynau, Hunaniaeth ac Adennill* tra bydd y Seicolegydd Clinigol Dr Phil Townshend, Pennaeth Ffederasiwn Gamblo Cyfrifol Fictoria, Melbourne, Awstralia yn trafod *Taclo Gamblo Gormodol – Profiad Talaith Victoria*.

Noddir y ddau ddigwyddiad gan Alun Ffred Jones AC.

I gofrestru am y digwyddiadau: Ffoniwch 029 2049 3895 neu e-bostiwch: livingroom-cardiff@cais.org.uk

HENEIDDIO'N DDA YNG NGHYMURU

Mae prosiect Heneiddio'n Dda yng Nghymru yn ein gwahodd i gwblhau arolwg arlein o'n partneriaid yn yr Ymgyrch i Orffen Unigrwydd. Maent yn croesawu awgrymiadau ar y ffordd orau i ffurfio eu gwaith i leihau unigrwydd yn y dyfodol. Os gwelwch yn dda, rhwch wybod eich sylwadau trwy gwblhau yr arolwg arlein canlynol erbyn 31 Mai 2015, gyda'r cyfle i ennill un o dair taleb £50 John Lewis:

<https://www.surveymonkey.com/s/LonelinessStrategy2017>

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am Heneiddio'n Dda yng Nghymru, yna cysylltwch â Steve Huxton, *Cydllynydd Rhwydweithiau – Heneiddio'n Dda yng Nghymru*, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FL. Ffôn: 08442 640 670 - Ffacs: 08442 640680

www.ageingwellinwales.com / www.olderpeoplewales.com

Dilynwch ni ar Twitter [@HeneiddioynDda](https://twitter.com/HeneiddioynDda) / [@comisiwnphcymru](https://twitter.com/comisiwnphcymru)



**Heneiddio yn Dda
yng Nghymru**

SANCSIYNAU BUDD-DALIADAU

Mae nifer o eglwysi Cytûn – yr Eglwys Fethodistaidd, yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig, Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr a'r Eglwys yng Nghymru – wedi cyhoeddi adroddiad dirdynnol am effaith sancsiynau ar bobl sy'n derbyn budd-daliadau. Mae'r adroddiad ar gael yn y Gymraeg ar <http://www.churchinwales.org.uk/society/benefit-sanctions/>

Gobeithir cyhoeddi yn fuan iawn atodiad i'r adroddiad yn cynnwys ystadegau penodol am yr effaith yng Nghymru. Bydd yn cael ei lansio yn gyhoeddus, yng nghwmni cynrychiolwyr etholedig ac arweinwyr eglwysig, yn Eglwys Catrin Sant, Pontypridd. Y dyddiad posibl yw Gwener, 19eg Mehefin, ond nid yw hyn wedi ei gadarnhau. Os hoffech wybod mwy, cysylltwch â Carol Wardman yn CarolWardman@churchinwales.org.uk



EWROP – CYLLID A'R DYFODOL

Mae WCVA yn eich gwahodd i 'gadw'r dyddiad' ar gyfer ein digwyddiadau gwybodaeth a chymorth a fydd yn cyflwyno ac yn egluro cyfleoedd cyllid Ewropeaidd i ddod.

Fe fydd digwyddiadau ymlaen ledled rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd rhwng 26 Mai a 10 Mehefin. Yn ystod y bore fe fydd yna gyflwyniadau a chyfleoedd i ofyn cwestiynau, ac wedyn

fe fydd yna gyfle i aros am y prynhawn ar gyfer sesiynau cynghori unigol. Cyhoeddir manylion pellach yn fuan, ond yn y cyfamser os hoffech chi neilltuo lle, e-bostiwch activeinclusion@wcva.org.uk

Mae Cytûn a'r enwadau yn ystyried hefyd sut orau y gallwn fod o gymorth i eglwysi a chymunedau ffydd wrth baratoi ar gyfer y **Refferendwm** a gynhelir yn 2016 neu 2017 am aelodaeth gwledydd Prydain yn yr Undeb Ewropeaidd. Fe hoffem glywed eich syniadau.

ETHOLIAD 2016 – EICH SYNIADAU

Yn ogystal â Refferendwm Ewrop, mae swyddogion Cytûn a'r enwadau yn troi eu golygon hefyd tuag at Etholiad Cymru ym Mai 2016. Hoffem wybod gennych:

- Pa adnoddau yr hoffech eu derbyn i'ch cynorthwyo i ddeall a rhannu'r prif faterion fydd dan sylw?
- Pa gymorth fydd ei angen arnoch i drefnu cyfarfod gydag ymgeiswyr yn lleol, neu ymwneud mewn ffyrdd eraill â'r etholiad?
- Os buoch yn trefnu cyfarfod neu yn defnyddio'n hadnoddau ar gyfer Etholiad 2015, beth weithiodd i chi? A beth oedd yn brin o'ch disgwyliadau?

Cysylltwch â Gethin Rhys (manyion isod) gyda'ch syniadau, os gwelwch yn dda.



CYSYLLTU Â SWYDDOG POLISI CYTÛN

Parch./Revd Gethin Rhys - Swyddog Polisi/Policy Officer

Cytûn - Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales

58 Richmond Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 3AT

Tel: 029 2046 4378 Mudol/mobile: 07889 858062

E-bost/E-mail: gethin@cytun.org.uk [@CytunNew](https://twitter.com/CytunNew)



Hapus i gyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Happy to communicate in Welsh and English

Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 05853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" |

Mae Cytûn yn elusen gofrestrdig | Rhif: 1117071 |

Dyddiad cyhoeddi: 14eg Mai 2015.

Cyhoeddir y Bwletin nesaf ar 12fed Mehefin 2015.